GWEITHIO GYDAG AMGUEDDFEYDD, SAFLEOEDD HANESYDDOL, LLYFRGELLOEDD AC ARCHIFAU: CANLLAW I YMARFER DA

Anelir y canllaw hwn at athrawon a chydlynwyr Bagloriaeth Cymru.

BETH Y GALLA I DDISGWYL EI WELD MEWN AMGUEDDFEYDD, SAFLEOEDD HANESYDDOL, LLYFRGELLOEDD AC ARCHIFAU?

Amgueddfeydd, safleoedd hanesyddol, llyfrgelloedd ac archifau ('amgueddfeydd ac ati' yn y canllaw hwn) yw gwarcheidwaid ein treftadaeth: byddan nhw'n casglu ac yn diogelu gwybodaeth. Weithiau bydd hynny'n 'dystiolaeth grai' – h.y. yn wreiddiol a di-esboniad – ac weithiau bydd wedi'i dehongli, efallai mewn arddangosfeydd neu gyda chymorth staff arbenigol. Mae'r tabl isod yn dangos y math o ddeunydd sydd ar gael mewn amgueddfeydd ac ati, a ble rydych chi debycaf o'i gael.

Allwedd		Yn sicr		Yn fwy na thebyg		O bosibl		Annhebygol

Deunydd ffynhonnell	Amgueddfeydd	Safleoedd treftadaeth	Llyfrgelloedd	Archifau
Gwybodaeth (h.y. wedi'i hysgrifennu ar ôl y digwyddiad)				
Llyfrau mewn print ac allan o brint				
Papurau newydd a chylchgronau				
Dogfennau gwreiddiol (h.y. wedi'u hysgrifennu adeg y digwyddiad)				
Llythyrau, dyddiaduron a dyddlyfrau				
Ffurflenni cyfrifiad (1841-1911)				
Cofnodion genedigaethau, priodasau, marwolaethau, cyfarfodydd cynghorau, cyfarfodydd cymdeithasau, achosion llys, carchardai, ysbytai; hefyd cyfrifon busnes a chyfeiriaduron masnach				
Celfyddyd a graffigwaith				
Paentiadau				
Cartwnau, posteri, ffotograffau, printiau, lluniadau				
Mapiau a chynlluniau hanesyddol (e.e. tai, trefi, ffyrdd, camlesi)				
Clyweledol				
Ffilm, fideo a sain hanesyddol (e.e. hanes llafar, darllediadau)				
Cerddoriaeth				
Gwrthrychau				
Darganfyddiadau archaeolegol, hanes cymdeithasol, crochenwaith, darnau arian, offerynnau cerdd, Diwylliannau'r Byd, chwaraeon, gwyddoniaeth, byd natur				
Gwisgoedd, milwrol, diwydiannol, cludiant				
Llenyddiaeth				
Treftadaeth				
Adeiladau hanesyddol, safleoedd archaeolegol a diwydiannol				
Cerrig beddau a meini coffa				
Staff arbenigol				
Curaduriaid, staff busnesau, staff masnachol a staff manwerthu				
Archifwyr				
Llyfrgellwyr				
Swyddogion Dysgu				
Arbenigwyr ar gadwraeth				
Actorion				
Haneswyr lleol				

SUT Y GALL YMWELIADAU AG AMGUEDDFEYDD AC ATI HELPU I GYFLWYNO CRAIDD CYMHWYSTER BAGLORIAETH CYMRU?

1. Cymru, Ewrop a'r Byd (CEB)

Dyma'r cyswllt amlycaf ag amgueddfeydd ac ati. O fewn y thema CEB, y ddwy elfen fwyaf perthnasol yw 'Effaith Newid Economaidd a Thechnolegol' a 'Treftadaeth a Phersbectifau Diwylliannol'. Ond nodwedd allweddol ar ymweliadau ag amgueddfeydd ac ati yw'r potensial i ddysgu'n drawsgwricwlaidd a datblygu sgiliau ymchwil a sgiliau hanfodol eraill.

Ymweliad CEB â Sain Ffagan

2. Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)

Y brif ran o ABCh sy'n cyplysu ag amgueddfeydd ac ati yw Elfen 4, sef 'Deall materion datblygu ac addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy' a chael cipolwg ar dechnolegau hen a newydd. Gellir defnyddio arddangosfeydd rhyngwladol mewn orielau i ystyried ymatebion pobl i Ddinasyddiaeth Fyd-eang (mater allweddol 3). Mae'r potensial yn bod hefyd i fyfyrwyr weithio gyda mudiadau gwirfoddol – byddai hynny'n cynnwys amgueddfeydd ac ati, a safleoedd treftadaeth – fel rhan o Elfen 5 (Cyfranogi yn y Gymuned), megis gweithgareddau mewn llyfrgelloedd gyda darllenwyr ifanc.

3. Yr Ymchwiliad Unigol

Eiliad dawel mewn oriel

Gan mai casgliadau yw hanfod amgueddfeydd ac ati, mae digon o botensial i drefnu i fyfyrwyr wneud prosiectau ymchwil ynddynt. Mae archifau a llyfrgelloedd yn barod i helpu prosiectau ymchwil unigol os oes ganddynt staff sydd â'r amser a'r arbenigedd i lywio'r myfyrwyr ar lefel sy'n cyd-fynd â'u gallu academaidd. Mae hi hefyd yn bwysig gweithio gyda llyfrgelloedd ysgolion a cholegau i ddatblygu sgiliau ymchwil a chyrchu dogfennau ar-lein neu rai printiedig. Mae pecyn cymorth ar gyfer defnyddio amgueddfeydd ac ati i wneud Ymchwiliad Unigol ar gael gan CyMAL ac o we-dudalennau CBC i athrawon.

4. Addysg Gysylltiedig â Gwaith

Mae potensial i amgueddfeydd ac ati ymwneud ag Addysg Gysylltiedig â Gwaith drwy Leoliadau Gwaith a gweithgareddau Menter Tîm. Gan fod maint amgueddfeydd ac ati yn amrywio'n fawr, gall rhaglenni profiad gwaith gael eu trefnu gan adrannau Adnoddau Dynol, adrannau addysg neu (mewn sefydliadau bach iawn) gan drefnwyr neu guraduriaid gwirfoddol. Bydd ansawdd y profiad yn dibynnu ar reoli ac integreiddio'r myfyrwyr unigol yn hytrach na maint y sefydliad. Gan fod pob amgueddfa ac ati'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, mae yno'r potensial i gyflawni gweithgareddau Menter Tîm a gweithio gyda staff i sefydlu a rhedeg digwyddiadau.

5. Sgiliau Hanfodol Cymru

Gan fod amgueddfeydd ac ati'n drawsgwricwlaidd yn eu hanfod, mae modd rhoi sylw i'r Sgiliau Hanfodol ar lawer lefel, ond mae archifau a llyfrgelloedd yn arbennig o addas ar gyfer sgiliau TG a chyfathrebu. Gall rhannu ymweliad hefyd gyflawni nodau cymdeithasol a helpu aelodau grwpiau i gyd-dynnu.

ALL AMGUEDDFEYDD AC ATI HELPU GYDAG OPSIYNAU?

Gallan nhw helpu gyda'r opsiynau yn hytrach na thrwy'r Craidd yn unig. Does dim angen i'r opsiynau fod yn hanesyddol nac yn ddiwylliannol, fel y mae'r enghreifftiau hyn o brosiectau'n dangos:

- Mae myfyrwyr Harddwch, Gofal Plant ac Adeiladu i gyd wedi ymweld â maenordy o'r 17eg ganrif gan gyfuno'u dewisiadau â'r thema Cymru, Ewrop a'r Byd drwy gymharu'r arferion cyfredol â thechnegau hanesyddol.
- Myfyrwyr Hamdden a Thwristiaeth yn ymweld â man twristaidd i weld sut mae'r busnes yn gweithio'n ymarferol, gan gysylltu unwaith eto â thema Cymru, Ewrop a'r Byd.
- Gweithiodd myfyrwyr TG gydag archif hanesyddol i ddatblygu llwybrau ar-lein.

Gofal plant yn null yr 17eg ganrif

PA WASANAETHAU Y GALLA I DDISGWYL EU CAEL GAN AMGUEDDFEYDD AC ATI?

- Mae **amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth** yn cynnig amrywiaeth mawr o gyfleoedd drwy eu gweithgareddau ar-y-safle, fel teithiau cerdded a gweithdai, neu drwy eu gwasanaethau allgymorth.
- Mae **archifau** yn cynnig cyflwyniadau a theithiau o amgylch gwasanaethau ar y safle ond mewn gwell sefyllfa, efallai, i ddarparu cynnwys sy'n cynorthwyo ymchwil, yn enwedig mewn partneriaeth â darparwyr eraill fel amgueddfeydd a llyfrgelloedd. Mae archifau wedi bod yn datblygu gwasanaethau ar-lein yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Mae **llyfrgelloedd** yn debyg i archifau o ran yr hyn y gallant ei gynnig i fyfyrwyr: gallant ddarparu gwasanaeth ar y safle i gynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ond gallant hefyd gynorthwyo prosiectau ymchwil a sgiliau llythrennedd gwybodaeth.

SUT MAE MANTEISIO I'R EITHAF AR YMWELIAD?

- Cofiwch fod llawer math gwahanol o amgueddfa ac ati, a'u bod yn amrywio o'r amgueddfa fach leol neu archif cymunedol a redir gan wirfoddolwyr i'r sefydliad cenedlaethol sydd â staff arbenigol i helpu myfyrwyr i wneud eu hastudiaethau.
- Onid ydych chi'n agos i'r amgueddfa ac ati ac yn gallu ymweld â hi sawl tro, mae'n debyg mai eithaf byr fydd yr amser ar y safle. Gan fod yr ymweliad, felly, yn fwy defnyddiol fel cyfle i ysgogi nag i wneud ymchwil fanwl, hoeliwch eich sylw ar y profiad a gaiff y myfyrwyr yn hytrach nag ar wybodaeth. Gofynnwch am gael gweld gwrthrychau neu ddogfennau hanesyddol – a gofyn a all y myfyrwyr hyd yn oed ddal rhai yn eu dwylo. Dywedwch eich bod chi am i'r myfyrwyr gael amrywiaeth o brofiadau – cyfarfod â staff arbenigol, gweld neu gyffwrdd â gwrthrychau go-iawn, a chael profiad o ddehongli cyffrous a datrys problemau.
- Mae'n bwysig sôn wrth y sefydliad am eich amcanion, yn enwedig o ran datblygu sgiliau megis ymchwilio i dystiolaeth hanesyddol neu farnu dehongliadau gwahanol o ddigwyddiadau. Ond peidiwch â bod yn rhy gul – cofiwch fod yn agored i'r annisgwyl yn ystod yr ymweliad am fod amgueddfeydd ac ati'n llawn o emau cudd!
- Penderfynwch ble mae'r ymweliad yn cyd-fynd orau â'ch cynllun gwaith. Os daw ar y dechrau, bydd yn ysgogiad. Os daw'n ddiweddarach, cewch gyfle i fwydo gwybodaeth i'r myfyrwyr cyn yr ymweliad. Gwnaiff yr amgueddfa ac ati'ch cynghori chi ynghylch hynny.
- Rhowch ddigon o rybudd i'r sefydliad er mwyn iddo ddod o hyd i bethau a wnaiff droi'r ymweliad yn brofiad byw a chofiadwy.

CYSYLLTAU DEFNYDDIOL

Cyffredinol

CyMAL / Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru: www.cymal.cymru.gov.uk/
Culture24: http://www.culture24.org.uk/places+to+go/wales

Amgueddfeydd
Amgueddfa Cymru: http://www.amgueddfacymru.ac.uk/
Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru: http://welshmuseumsfederation.org

Archifau
Defnyddio archifau: http://www.arts-scheme.co.uk/
Archifau Cymru: http://www.archiveswales.org.uk/cy/
Casgliad y Werin: http://www.casgliadywerincymru.com/
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: http://www.cbhc.gov.uk/ (Archif ar-lein cyhoeddus - http://www.coflein.gov.uk/)

Llyfrgelloedd
Llyfrgelloedd Cymru: http://www.library.wales.org/cy/
Y Prosiect Llythrennedd Gwybodaeth: http://library.wales.org/cy/informationliteracy/
Llyfrgell Genedlaethol Cymru: http://www.llgc.org.uk/
Y Bywgraffiadur Ar-lein: http://wbo.llgc.org.uk/cy/index.html

Safleoedd hanesyddol
Cadw: http://cadw.cymru.gov.uk
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: http://www.nationaltrust.org.uk
Ymddiriedolaeth Landmark: http://www.landmarktrust.org.uk/

Castell Harlech, Gwynedd